**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Nesta Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Conffederasiwn GIG Cymru

Cc: Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Cc: Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Gorffennaf 2023

**Gweithredu diwygiadau addysg allweddol (ail wiriad)**

Annwyl Nesta,

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad dros dymor cyfan y Senedd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Rydym yn gwneud hyn drwy gyfres o 'wiriadau' i ystyried cynnydd a materion sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â gweithredu.

Fel rhan o'n hail wiriad, aethom i ymweld â nifer o ysgolion, cynnal grwpiau ffocws gydag ymarferwyr a chynnal sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai 2023. Rydym hefyd wedi cael amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid.

Rwy'n achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa y gallwch gyflwyno eich barn i ni mor aml ag yr hoffech, ar unrhyw adeg, ac am unrhyw fater sy'n ymwneud â diwygio addysg.

## Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu mwy am gydweithio dan y system ADY newydd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a byrddau iechyd. Mae gwelliannau mewn cydweithio o'r fath yn fudd arfaethedig o'r system newydd. Mae rôl statudol newydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) y mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ei dynodi yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

Byddem yn ddiolchgar am eich safbwynt ynghylch i ba raddau y mae'r system ADY newydd wedi arwain at y gwelliannau arfaethedig i gydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r GIG. Er enghraifft, faint o wahaniaeth y mae rôl statudol y SACDA yn ei wneud ar lawr gwlad?

## Dyletswyddau statudol cyrff y GIG

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc, pan fo awdurdod lleol yn gofyn iddynt wneud hynny. Pan fo corff y GIG yn dod i'r casgliad bod triniaeth neu wasanaeth o'r fath, mae'n ofynnol iddo ei sicrhau i’r plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r Cod ADY hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ymateb i gais i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o fod o fudd i'r plentyn, neu gais am wybodaeth neu help wrth benderfynu sut i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plentyn, o fewn chwe wythnos. Eithriad i'r amserlen chwe wythnos yw pan fo'n anymarferol i gorff y GIG wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Rydym wedi clywed rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd o ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael trafferth cael mewnbwn gwasanaethau iechyd ac weithiau'n gorfod ysgrifennu Cynlluniau Datblygu Unigol yn niffyg mewnbwn a gwybodaeth o'r fath gan y GIG pan fo angen mawr am hyn.

Byddem yn ddiolchgar am eich safbwynt ynghylch i ba raddau y mae cyrff y GIG yn cydymffurfio'n llawn â'u dyletswyddau statudol i sicrhau darpariaeth pan fyddant yn ystyried ei bod yn debygol o fod o fudd, ac i roi gwybodaeth a help wrth asesu anghenion dysgwyr a nodi darpariaeth addas.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 31 Awst 2023 fan bellaf.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.